Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

St John's Terrace
Abaty Nedd
Castell-nedd
SA10 7ND

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 43 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | * |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 31 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/11/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Dd/b |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

# Crynodeb

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ysgol groesawgar a llwyddiannus sy'n rhoi lles a dysgu o ansawdd uchel wrth wraidd bob gweithgaredd. Mae'r staff yn cydweithio'n agos â'i gilydd i greu amgylchedd diogel ac ysgogol i bob plentyn. Mae perthynas agos â rhieni a llywodraethwyr yn rhan annatod o'r diwylliant hwn, gan gyfrannu at gymuned ysgol hapus.

Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn darparu gweithgareddau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae athrawon yn sicrhau eu bod yn darparu cyfarwyddiadau clir, cydbwysedd addas o her a chefnogaeth, a chyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio drostynt eu hunain. Mae hyn yn helpu disgyblion i feithrin hyder ac annibyniaeth. Yn yr arfer orau, mae cwestiynau agored y staff yn annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth. Pan nad yw hyn mor effeithiol, mae'r staff yn dueddol o holi cwestiynau mwy arwynebol ac nid ydynt yn caniatáu digon o gyfleoedd i ddisgyblion feddwl nac ymateb.

Mae hybu'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn frwd i fodelu iaith gyfoethog gan staff. Maent yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn gadarn. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o adeilad yr ysgol a'r ardaloedd allanol wrth ddarparu profiadau cyffrous ac eang i'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol cadarn. Maent yn defnyddio adnoddau ymarferol yn fwriadus i gefnogi eu dealltwriaeth ac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol i ddatrys problemau.

Er bod y staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn arwain a chyfrannu fel aelodau o'r Cyngor Ysgol, nid ydynt bob amser yn cael digon o brofiadau i ddylanwadu'n ehangach ar fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Cysoni'r defnydd o holi effeithiol er mwyn herio a datblygu dealltwriaeth disgyblion ymhellach

A2. Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain a dylanwadu ar waith yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth wedi gweithio'n ddiwyd i sefydlu ysgol newydd lwyddiannus gyda gweledigaeth glir yn seiliedig ar hybu lles disgyblion a safonau uchel er mwyn creu cymuned sy'n deulu hapus a charedig. Mae hyn yn cael ei wireddu drwy berthynas gref â'r rhieni a'r llywodraethwyr. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, yr holl staff a'r disgyblion. Mae hi'n arwain trwy esiampl gan ddangos cyfeiriad clir i dîm effeithiol o staff sy'n galluogi'r disgyblion i ddysgu mewn amgylchedd ysgogol ac i gael profiadau eang a chyffrous.

Mae'r holl staff yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth er mwyn adnabod cryfderau'r ysgol ac agweddau sydd angen eu datblygu. Maent yn cydweithio i bennu blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen tuag at ei llawn dwf. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth i wella lles, profiadau dysgu a chynnydd ym medrau'r disgyblion yn briodol. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus iawn am brosesau a gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol ac mae eu mewnbwn yn rhan bwysig o bennu blaenoriaethau ysgol gyfan. Maent wedi gweithio yn agos gyda'r pennaeth a'i chefnogi a'i herio wrth sefydlu cwricwlwm, a seilir ar egwyddorion dysgu sylfaen, fel gwraidd i dwf yr ysgol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm.

Mae'r staff yn creu perthynas hyfryd â'r disgyblion. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn unigol. Mae'r disgyblion yn ymddiried yn y staff ac yn gwrando'n dda arnynt. Mae cyfarwyddiadau clir y staff a'u trefniadaeth dosbarth yn galluogi'r disgyblion i ddysgu a chwarae gan fagu eu medrau annibyniaeth yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn symud y dysgu yn ei flaen ar gyflymdra pwrpasol gan gynnig lefel o her a chymorth addas. Maent yn annog disgyblion i ddarganfod dros eu hunain ac yn ymyrryd yn fwriadus pan fydd yn briodol er mwyn cefnogi'r dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn addasu gweithgareddau'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion unigol. Yn yr arfer orau, mae'r staff yn defnyddio cwestiynau agored i annog disgyblion i feddwl am eu hatebion ac i ddwysáu eu dealltwriaeth. Pan nad yw hyn mor effeithiol, mae'r staff yn holi cwestiynau arwynebol ac nid ydynt yn darparu digon o amser na chyfleoedd i ddisgyblion feddwl ac ymateb. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan i'r adeilad.

Mae'r holl staff yn fodelau iaith effeithiol sy'n bwydo geirfa gyfoethog i'r disgyblion o oed cynnar, ac sy'n annog bob disgybl i siarad Cymraeg graenus. Mae'r disgyblion yn ymateb yn frwd gyda'r rhan fwyaf yn arddel agweddau positif tuag at yr iaith ac yn ei defnyddio'n bwrpasol fel rhan greiddiol o'u dysgu a'u chwarae. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus gan drafod eu gwaith yn wybodus a gyda geirfa aeddfed.

Mae llawer o ddisgyblion yn meithrin medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. Maent yn dangos mwynhad at ddarllen, er enghraifft, wrth iddynt ddewis llyfrau o wahanol ardaloedd y dosbarth a gofyn i oedolion ddarllen gyda nhw. Maent yn ailadrodd storïau yn gywir ac yn ymwybodol bod geiriau yn cyfleu ystyr. Mae'r disgyblion hŷn yn darllen yn gywir ac yn rhugl gyda ychydig iawn ohonynt yn goslefu'r llais yn fwriadus. Mae medrau ysgrifennu cynnar disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r athrawon yn deall datblygiad plant yn dda gan sicrhau digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau corfforol mân a bras er mwyn creu marciau yn llwyddiannus wrth ddechrau ysgrifennu. Pan maent yn barod i wneud hynny, mae disgyblion yn dechrau ysgrifennu yn fwy ffurfiol. Maent yn dechrau ysgrifennu cyfres o frawddegau yn annibynnol gan atalnodi'n gywir, ar y cyfan.

Mae athrawon yn manteisio ar nifer o gyfleoedd i ysgogi'r disgyblion drwy eu cyflwyno i ymwelwyr gwahanol neu eu tywys ar deithiau yn yr ardal leol. Er enghraifft, mae eu ymweliadau â chartref lleol i'r henoed yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u milltir sgwâr ac yn cryfhau eu perthynas â'r gymuned. Mae'r staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd fel parch, dycnwch ac amrywiaeth yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar agwedd y disgyblion tuag at eu dysgu. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus o oed cynnar ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig yn rheolaidd. Mae'r holl staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob un yn dangos parch a chwrteisi at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r staff yn dechrau meithrin medrau arwain y disgyblion hynaf wrth gynnig cyfleoedd addas iddynt wneud penderfyniadau ac arwain ar weithgareddau'r Cyngor Ysgol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar fywyd yr ysgol yn ehangach.

Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn olrhain ymgysylltiad a chynnydd disgyblion yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod eu harsylwadau yn bwydo'r cynllunio wrth iddynt baratoi ardaloedd y dosbarthiadau a'r adnoddau sydd ar gael i'r disgyblion. Mae'r athrawon yn ymateb yn briodol i ddisgyblion yn ystod y sesiynau dysgu ac yn paratoi gweithgareddau sy'n ymateb i'w gofynion a syniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Mae athrawon a chynorthwywyr yn bwydo geirfa fathemategol gywir i'r disgyblion o oedran cynnar wrth iddynt chwarae. Mae'r staff yn darparu ystod eang o adnoddau i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau syml ac maent yn eu cymell i feddwl a darganfod wrth chwarae. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werth lle. Mae'r mwyafrif yn ymdrin â channoedd, degau ac unedau yn hyderus ac yn cymhwyso eu medrau mathemategol mewn cyd-destunau bob dydd tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae bron bob disgybl yn defnyddio offer digidol yn naturiol ac yn briodol yn ystod gweithgareddau. O ganlyniad, mae eu medrau digidol cynnar yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae’r disgyblion hŷn yn mewngofnodi’n annibynnol i adnoddau ar-lein ac yn defnyddio rhaglenni codio a thaenlenni yn fedrus.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer adnabod y disgyblion sydd ag ADY. Mae’r staff yn gweithredu’n amserol i adnabod a diwallu anghenion disgyblion, yn ôl yr angen. Maent yn cydweithio’n fwriadus â rhieni a phartneriaid eraill, gan gynnwys y lleoliad gofal plant sy’n bwydo’r dosbarth feithrin, i ddatblygu darpariaeth sy’n mynd i’r afael ag anghenion bron bob disgybl yn fuddiol.

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli’r cyllid yn effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau doeth wrth sicrhau cyllideb deg o’r awdurdod ac wrth gynllunio ar gyfer twf yr ysgol. Mae’r pennaeth a’r holl staff yn defnyddio adnoddau’r ysgol yn effeithiol er mwyn sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chymorth safonol ar gyfer lles disgyblion. Mae’r pennaeth yn darparu ac yn cyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i’r staff, sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion sy’n cyd-fynd â’r blaenoriaethau strategol presennol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026